**0Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 17eg o Fedi 2019**

**Presennol:** Cyng. Sharon Wyn Parry (Cadeirydd)
Cyng. Celfyn Furlong
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Siân Enfys Jones
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Dyfed Williams

**Gwr Gwadd Mr. Trystan Evans – Adran Dai, Cyngor Sir Ynys Môn**

Penodwyd Kenton Jones Ltd i godi chwe thŷ 2 ystafell wely ar safle Treifan yn ystod y 12 mis nesaf. Roedd y gwaith wedi cychwyn a byddai ffensys a 'porta cabins' yn cyrraedd yn fuan a'r bwriad oedd gorffen y gwaith daear cyn y gaeaf. Roedd Mr Mike Mowbray, a oedd yn frodor o'r ardal, wedi'i benodi i reoli'r prosiect a bydd nifer o gwmnïau lleol yn gweithio ar y prosiect.

Roedd y maes parcio presennol wedi'i gau a byddai man parcio dros dro yn cael ei greu ym mhen isaf y cae chwarae. Byddai gan y tai newydd eu lle parcio eu hunain a bydd y maes parcio gwreiddiol yn cael ei adfer unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau. Gallai'r lleoedd parcio dros dro gael eu cadw yn barhaol os bydd angen. Croesawyd y syniad hwnnw ar yr amod bod mynediad digonol ar gyfer cynnal a chadw'r cae chwarae. Awgrymwyd hefyd y gellid gofyn i Dŵr Cymru ildio'r tir oedd wedi'i ffensio gan nad oedd yn cael ei ddefnyddio mwyach.

Bydd y tai gyda strwythurau modiwlaidd sydd wedi eu hadeiladu o bren Cymru Roeddent yn strwythurau rhagorol, yn gryf iawn ac yn ecogyfeillgar. Byddent yn cael eu hadeiladu mewn ffatri a'u cludo i'r safle a dim ond tri diwrnod fydd angen i'w codi. Felly bydd llawer llai o draffig adeiladu a cyn lleied â phosibl o aflonyddwch i drigolion Treifan. Bydd y tŷ cyntaf yn cyrraedd ym mis Ionawr a disgwylir yr olaf ym mis Mehefin 2020. Bydd y Rheolwr Prosiect yn siarad â thrigolion ac yn gofyn iddynt gynorthwyo gyda chadw mynediad clir i'r safle ar y dyddiadau hynny.

Bydd angen penderfynu sut y bydd y tai hyn yn cael eu rhifo, roedd CSYM yn agored i awgrymiadau ar hyn.

Roedd yn debygol y bydd peth ddiddordeb yn y prosiect. Roedd Llywodraeth Cymru yn hynod awyddus i gartrefi modiwlaidd gael eu hadeiladu a rhoddwyd grant tuag atynt o'r 'Rhaglen Tai Arloesol' ar yr amod hyn. Roedd cartrefi fel y rhain yn gyffredin iawn yn yr Alban ond y rhain fydd y rhai cyntaf o'u math yng Nghymru.

Cadarnhawyd y byddent yn cael eu gosod i bobl leol yn y lle cyntaf yn unol â Pholisi Gosod Tai Cyffredin y Cyngor Sir.

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………

Cyfeiriwyd at y datblygiad arfaethedig ar Gamp Fali ac unwaith eto cadarnhawyd bod y cymdeithasau tai lleol yn gweithio gyda'r Awdurdod Lleol ac yn gweithredu i'r un Polisi ar osod tai.

Cafwyd trafodaeth wedyn am y posibilrwydd o fodd cymunedol ar ffurf offer chwarae neu ffensys newydd – (roedd y cwmni yn gweithio gyda strwythurau pren), cytunodd y Cynghorwyr roi sylw hyn.

**1.** **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gordon Owen a Cyng. Beryl Salisbury.

**2.** **Datganiad o ddiddordeb: - dim.**

**3.** **Cofnodion cyfarfod 16eg o Orffennaf 2019:**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Celfyn Furlong, eilio Cyng. Gwilym O. Jones.)

**4.** **Materion yn codi o'r cofnodion:**
1. Cae Chwarae - Roedd C. Redmond wedi cytuno i atgyweirio'r sleid, roedd hefyd wedi archwilio'r meinciau ac wedi rhoi chwyn lladdwr o gwmpas y llwybrau. Byddai'r clerc yn gofyn iddo roi dipyn mwy gan nad oedd yn ymddangos ei fod wedi gweithio'n dda iawn. Byddai'r clerc yn edrych ar y postiai presennol ac yn archebu arwydd newydd i'r cae chwarae. Byddai hefyd yn gwneud ymholiadau ynglŷn â a chaniatáu cŵn ar y safle.

2. Hysbysfwrdd – Roedd y mater hwn yn parhau.

3. Lloches Fws – Yn dilyn cais gan K Owen (Gwneuthurwr Dur) cytunwyd y dylai'r paneli newydd edrych yr un fath a'r lleill a bydd y clerc yn gofyn iddo rhoi pris am banel metel / perpex ar ochr yr A5 ynghyd â phanel ar hanner y cefn.
Roedd Cyng. Victor Owen a Mr Graham wedi bod yn brysur yn tacluso o gwmpas ac yn glanhau'r llochesi fysiau eraill ac roedd Cyng. Furlog wedi torri coed oedd wedi gordyfu y tu ôl i'r lloches fws wrth Llwyn Celyn. Gwerthfawrogwyd eu hymdrechion yn fawr iawn.

4. Hyfforddiant - Anfonwyd copi o gynllun hyfforddi'r Cyngor i'r Pwyllgor Safonau yn ôl y gofyn a thrafodwyd manylion digwyddiadau hyfforddi oedd i ddod.

5. Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion: dim.

**5.** **Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

1 <u>Penderfyniadau cynllunio - dim</u>

2. <u>Ceisiadau Cynllunio</u>

CONS/2019/5 Ymgynghoriad ar y bwriad i gael gwared ar ffonau talu cyhoeddus.

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………

Gwahanol leoliadau ar Ynys Môn - Dim gwrthwynebiad i'r cynnig i symud y ffôn ar Lon Dinam Road gan mai ond 3 galwad a wnaed ohono yn ystod y 12 mis diwethaf.

**6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Diwrnod Agored - Arolwg o Anghenion Tai Lleol - roedd Tai Teg wedi trefnu Diwrnod Agored ddydd Mercher 2 Hydref 2019. 3:00 pm-7: 00pm yn Neuadd Bentref Caergeiliog. Roedd yn gyfle i breswylwyr fynegi eu hanghenion tai a rhoi eu barn ar ddatblygiad arfaethedig yn Llanfihangel yn Nhowyn.
2. Cyfarfod Rhwydwaith Trydydd Sector 25.9.2019
3. Gordyfiant ar Llwybr Troed yn Caergeiliog – y clerc i gael prisiau.
4. Sul y Cadeirydd 13/10/19 – y Cadeirydd a Cyng. Siân Enfys Jones am fynychu hwn
5. Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswydd Cynghorau Chymuned a Thref o dan Adran 6 – roedd y clerc am gael golwg ar hwn.
6. Model Reoliadau Ariannol Newydd - byddai'r clerc yn cylchredeg y ddogfen ddiwygiedig.
7. New Governance & Accountability A Practitioner's Guide Wales 2019 (Saesneg yn unig) – y clerc i anfon linc.
8. Fforwm Cyswllt y Cynghorau Tref a Chymuned – cofnodion.
9. Swyddfa Archwylio Cymru - Rhaglen Ymarfer Da - 2019/20; - y clerc i anfon linc
10. Esboniad Cyfreithiol - Cymorth Ariannol i Eglwysi - i'w gylchredeg.
11. Comisiwn Ffiniau A Democratiaeth Leol Cymru - cydnabuwyd nad oedd gan y Cyngor Sir ddigon o Gynghorwyr i gynrychioli'r etholwyr ac y dylid cynyddu eu niferoedd i o leiaf 33. Roedd y Cyngor Sir wedi awgrymu y dylid grwpio Cynghorau Cymuned Llanfair yn Neubwll, y Fali a Bodedern gyda'i gilydd ac y dylid Llanfaelog ymuno â Chynghorau Cymunedol Bryngwran a Gwalchmai. Roedd yr aelodau'n gefnogol o hyn, byddai'r clerc yn ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â hynny.

**7. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr Adroddiad Ariannol ar gyfer Mehefin 2019 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc.

Yn y banc ar 17.9.2019 Cyfrif Cyfredol £14,702.44 Cyfrif Cadw £3,930.75

Llofnod…………………………………………….Cadeirydd………………………….

**8. <u>Taliadau i'w gwneud</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Gorff a Awst) | £474.18 | Rhent Cae Chwarae 2017/18 | £137 |
| GMS (INV 5733 + 5637) | £1368 | Costiau Etholiad | £135 |

**9. Adroddiadau Cynghorwyr**

Adroddodd Cyng. Victor Owen ar y llochesi fws. Roedd twll bach yn do'r lloches wrth groesffordd yr A55. Roedd tyfiant uchel du ôl i'r un wrth ochr Llyn Penrhyn ac roedd ei sedd wedi bwclo ychydig. Roedd canghennau a mieri o amgylch y ddwy loches ar y naill ochr i'r A5 wrth Llwyn Celyn. (Roedd Cyng. Furlong wedi torri rhai).

Y lloches wrth yr Eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn oedd y gwaethaf roedd graffiti a difrod llosgi hefo leitar arni. Roedd Mr Graham ac yntau wedi gwneud cymaint ag y gallent, nid oedd angen sylw brys arnynt ar hyn o bryd.

Dywedodd Cyng. Parry fod y rheiliau ger y lloches fws wrth yr eglwys yn edrych fel bod car weddi eu taro, fe hysbywyd CSYM a bu rhywun yno yn syth i'w trin.

**10. Cyfarfod Nesaf – 15eg o Hydref 2019**

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….